

Severn Estuary Shoreline Management Plan (SMP) Review




EXECUTIVE SUMMARY

The ***Shoreline Management Plan Review (SMP2)*** is a non-statutory document, containing draft policies proposing how the shoreline around the Severn Estuary should be managed over the next 100 years.

The SMP2 has been developed by the ***Severn Estuary Coastal Group (SECG)***, in consultation with the people that live, work and visit the shoreline of the Severn Estuary using government-agreed guidance documents. The SECG is a partnership of the Environment Agency, conservation authorities, Internal Drainage Boards (IDBs) and various local authorities around the Severn Estuary.

The study area of the SMP2 follows the shoreline from Lavernock Point, near Penarth in Wales to Anchor Head, just north of Weston Bay in England. The upstream boundary is at Haw Bridge, near Gloucester, which is just below the current tidal limit and still influenced by the sea. It also includes the islands of Flat Holm and Steep Holm.

The shoreline has been divided into ***16 Theme Areas*** based on regions, towns and cities around the Severn Estuary. Each Theme Area has been sub-divided into manageable lengths of coast, called ***Policy Units***. There are 66 Policy Units covering the study area of this Severn Estuary SMP2.



The SMP2 has been developed taking account of predicted changes to sea level rise caused by climate change over the next 100 years. The SMP2 is therefore seen as an important tool / guide for decision makers and planners to make sure that future land use on the shoreline does not put future generations at risk or impose unmanageable financial burdens in terms of coastal defence. The assessments used to inform this SMP2 have been completed at a high level and a very large scale (covering over 275 miles of shoreline), so that it provides a general picture of change, but is not intended to focus in detail on local differences regarding shoreline position in the future.

There are important sites of historical significance and internationally protected habitats around the Severn. The SMP2 helps to plan how these sites can adapt to climate change or how these assets/features need to be protected, replaced or adapted as a consequence of a particular shoreline policy being implemented.

A draft policy option has been chosen for each Policy Unit and for each time period (epoch) covered by the SMP2 (0-20 years, 20-50 years and 50-100 years). There are four possible policy options available to choose from:

- **Hold the Line (HTL)** – to provide some level of coastal defence, keeping the position of the defence approximately where it is now. This does not automatically mean that defences will be improved to counteract climate change – i.e.: how well the shore is protected from coastal flooding is not considered by the SMP2. This will be considered in more detail by Flood Risk Management Strategies and individual defence schemes.
- **No Active Intervention (NAI)** – assumes that no maintenance, repair or replacement of existing defence structures takes place. It is a 'do nothing' scenario against which different policies can be tested but it is also a viable policy choice for some stretches of shoreline e.g. where there is a low risk of flooding or erosion now or in the future).
- **Managed Realignment (MR)** – is the landward movement of defences, giving up some land to the sea to form a more sustainable defence line in the future. This option may create additional habitat such as mud flats or saltmarsh, which provide a natural flood risk defence.

- **Advance the Line (ATL)** - means reclaiming land from the sea by building new defences further seaward. This has not been proposed as a preferred policy option anywhere in the Severn Estuary SMP2.


There are a total of 198 policy options covering the whole Severn Estuary shoreline over the 100 year SMP2 period. The table below shows the distribution of different policy options proposed for this draft in the SMP2 over each epoch.

Epoch	Preferred policy options chosen		
	Hold the Line (HTL)	No Active Intervention (NAI)	Managed Realignment (MR)
Short term 0 to 20 years (2025)	40	22	4
Medium term 20 to 50 years (2055)	40	22	4
Long term 50 to 100 years (2105)	40	21	5

Many readers will focus on the local details and the draft policy option for the area where they live. **It is important to read the text accompanying the draft policies as well as the headline policy choice** – the way in which policies might be implemented is different in different Policy Units.

It is also important to recognise that the decisions made at the local level need to reflect the understanding of physical processes in the whole Severn Estuary and take account of policies and priorities at a regional and national level. **The Policy Statements that have been produced need to be read in the context of the wider-scale issues and policy implications**, which are set out in Part A of the SMP2.

All of the SMP2 documents are available online at www.severnestuary.net/secg.



Adolygiad o Gynllun Rheoli Traethlinau (SMP) Aber Hafren




Crynodeb Gweithredol

Mae'r **Adolygiad o'r Cynllun Rheoli Traethlinau (SMP2)** yn ddogfen anstatudol sy'n cynnwys polisiâu drafft yn argymhell sut y dylid rheoli'r traethlin o amgylch Aber Hafren dros y 100 mlynedd nesaf.

Datblygwyd SMP2 gan **Grŵp Arfordirol Aber Hafren (SECG)**, gan ymgynghori â'r bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld ag arforlin Aber Hafren, gan ddefnyddio dogfennau canllaw a gytunwyd gan y llywodraeth. Mae SECG yn bartneriaeth o'r amryfal awdurdodau lleol, awdurdodau cadwraeth, Byrddau Draenio Mewnol ac Asiantaeth yr Amgylchedd o amgylch Aber Hafren.

Mae ardal astudiaeth SMP2 yn dilyn yr arforlin o Drwyn Larnog, ger Penarth yng Nghymru, i Anchor Head, ychydig i'r gogledd o Fae Weston yn Lloegr. Y ffin i fyny'r afon yw Haw Bridge, ger Caerloyw, sydd ychydig yn is na ffin y llanw ar hyn o bryd ac sydd eto tan ddylanwad y môr. Mae hefyd yn cynnwys ynysoedd Echni a Ronech.

Rhannwyd yr arforlin yn **16 Ardal Thema** seiliedig ar ranbarthau, trefi a dinasoedd o amgylch Aber Hafren. Is-rannwyd pob Ardal Thema yn ddarnau o arfordir y gellir eu rheoli, a elwir yn **Unedau Polisi**. Ceir 66 o Unedau Polisi yn ymestyn dros ardal astudiaeth SMP2 Aber Hafren.



Datblygwyd SMP2 gan roi ystyriaeth i newidiadau a ragfyneir i'r cynnydd yn lefel y môr a achosir gan newid yn yr hinsawdd dros y 100 mlynedd nesaf. Gwelir yr SMP2 felly fel teclyn / canllaw pwysig i rai sy'n llunio penderfyniadau a chynllunwyr i sicrhau nad yw'r defnydd a wneir o dir yn y dyfodol ar yr arfordrin yn rhoi cenedlaethau'r dyfodol mewn perygl neu'n rhoi beichiau ariannol na ellir eu rheoli arnynt yn nhermau amddiffyn yr arfordir. Cwblhawyd yr asesiadau a ddefnyddiwyd i oleuo'r SMP2 hwn ar lefel uchel ac i raddfa fawr iawn (yn ymestyn dros 275 milltir o arfordrin), fel y rhydd ddarlun cyffredinol o newid: ond ni fwriedir iddo ganolbwyntio ar wahaniaethau lleol ynglŷn â sefyllfa'r arfordrin yn y dyfodol.

Ceir safleoedd pwysig o bwys hanesyddol a chynefinoedd a warchodir yn rhyngwladol o amgylch Aber Hafren. Mae SMP2 yn helpu cynllunio sut y gall y safleoedd hyn ymaddasu i newid yn yr hinsawdd neu sut y mae angen gwarchod, amnewid neu addasu'r asedau / nodweddion hyn o ganlyniad i weithredu polisi arbennig ynglŷn â'r traethlin.

Dewiswyd polisi drafft ar gyfer pob Uned Polisi ac ar gyfer pob cyfnod o amser (epoc) yr ymddrinnir ag ef gan SMP2 (0-20 o flynyddoedd, 20-50 o flynyddoedd a 50-100 o flynyddoedd). Mae pedwar o ddewisiadau polisi posibl ar gael i ddethol ohonynt:

- **Dal y Llinell (HTL)** – darparu rhywfaint o amddiffyniad arfordirol, gan gadw safle'r amddiffyniad lle mae, yn fras, ar hyn o bryd. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd amddiffynfeydd yn cael eu gwella i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd – e.e. nid ystyrir pa mor dda y gwarchodir y traethlin rhag llifogydd arfordirol gan SMP2. Ystyrir hyn yn fanylach gan Strategaethau Rheoli Risg Llifogydd a chynlluniau amddiffyn unigol.
- **Dim Ymyrraeth Weithredol (NAI)** – mae'n tybio nad oes unrhyw waith cynnal, trwsio nac amnewid ar strwythurau amddiffyn presennol yn digwydd. Dyma senarios 'gwneud dim' y gellir profi gwahanol bolisiâu yn eu herbyn, ond mae hefyd yn ddewis polisi hyfwrdd ar gyfer rhai darnau o'r traethlin e.e. lle bo bygythiad lifogydd neu erydu, yn awr neu yn y dyfodol, yn fychan.

- **Adlinellu Rheoledig (MR)** - mae hyn yn golygu symud yr amddiffynfeydd yn ôl tua'r tir, gan ildio rhywfaint o dir i'r môr, a chreu llinell amddiffyn fwy cynaliadwy yn y dyfodol. Gall y dewis hwn greu cynefin ychwanegol, megis traethellau llaid neu forfa heli, sy'n darparu amddiffyniad naturiol rhag perygl llifogydd.
- **Symud y Llinell Ymlaen (ATL)** – golyga hyn adfer tir o'r môr drwy greu amddiffynfeydd newydd ymhellach i gyfeiriad y môr. Nis argymhellwyd yn ddewis polisi a ffefrir yn unrhyw le yn SMP2 Aber Hafren.

Ceir cyfanswm o 198 o ddewisiadau polisi drafft yn ymdrin â thraethlin Aber Hafren i gyd dros gyfnod SMP2 o 100 mlynedd. Mae'r tabl isod yn dangos dosbarthiad gwahanol ddewisiadau polisi a argymhellir ar gyfer y drafft hwn yn SMP2 dros bob epoc.

Epoc	Dewisiadau polisi a ddewiswyd		
	Dal y Llinell	Dim Ymyrraeth Weithredol	Ailaleinio wedi ei Reoli
Tymor byr 0 i 20 o flynyddoedd (2025)	40	22	4
Tymor canolig 20 i 50 o flynyddoedd (2055)	40	22	4
Tymor hir 50 i 100 o flynyddoedd (2105)	40	21	5

Bydd llawer o ddarllenwyr yn canolbwyntio ar y manylion lleol a'r polisi drafft detholedig ar gyfer yr ardal y maent yn byw ynddi. **Mae'n bwysig darllen y testun i gyd-fynd â'r polisïau drafft yn ogystal â'r penawdau polisi** – mae'r modd y gellid gweithredu polisïau yn amrywio o'r naill Uned Bolisi i'r llall.

Mae'n bwysig cydnabod bod angen i'r penderfyniadau a wneir ar y lefel leol adlewyrchu dealltwriaeth o brosesau ffisegol yn Aber Hafren gyfan, ac ystyried polisïau a blaenoriaethau ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. **Mae angen darllen y Datganiadau Polisi a gynhyrchwyd yng nghyd-destun y materion a'r goblygiadau polisi ar raddfa ehangach**, a gyflwynir yn Rhan A SMP2.

Mae'r holl ddogfennau SMP2 ar gael ar-lein yn www.severnestuary.net/secg.

